Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

25 Medi 2015

**Cais am wybodaeth ychwanegol am Swyddogion Cymorth Cymunedol**

Annwyl Weinidog

Diolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 24 Medi 2015 i roi tystiolaeth mewn perthynas ag Ymchwiliad Etifeddiaeth y Pwyllgor. Yn dilyn y sesiwn honno, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn i chi i egluro'r canlynol –

- nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol sydd wedi cael eu defnyddio o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru; a
- chyfanswm nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru bellach o'i gymharu â'r cyfanswm cyn dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi gynnwys ffynhonnell unrhyw ystadegau a ddarperir gennych.

Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn falch pe bai modd i chi ddarparu ymateb pellach i'r pryder bod Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cymryd lle y rhai nad ydynt bellach mewn swyddi o ganlyniad i doriadau yng nghyllid y Swyddfa Gartref.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb buan gennych.

Yn gywir

Christine Chapman AC

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

Cadeirydd